# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol y Fro

Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2025

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae’r pennaeth dros dro yn darparu ethos cartrefol a Chymreig i ddisgyblion feithrin eu lles a mwynhau eu dysgu mewn amgylchedd cynhwysol. Caiff ei chefnogi’n addas gan gorff llywodraethol sy’n sicrhau bod yr ysgol yn rhan bwysig o’r gymuned. Er hyn, nid yw aelodau’r corff yn gweithredu eu dyletswyddau’n ddigon bwriadus, er enghraifft wrth gydweithio ag arweinwyr i fonitro a gwerthuso’r addysgu a’r dysgu. Mae hyn yn golygu nad oes ganddynt ddigon o wybodaeth i gefnogi a herio’r athrawon i adnabod beth  mae’r ysgol yn ei wneud yn dda a beth sydd angen iddynt ei wneud i wella. Daeth un mater diogelu i’r amlwg yn ystod yr arolygiad.

Mae gan athrawon weledigaeth berthnasol sy’n cefnogi disgyblion i fod yn hapus yn yr ysgol ac i ddwysáu eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth mewn ystod addas o gyd-destunau dysgu. Mae’r ardaloedd dysgu yn fannau diddorol ble mae athrawon yn cyflwyno gweithgareddau sy’n cymell dysgu’r disgyblion yn briodol. Ar y cyfan, mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd cyson yn eu medrau. Er hyn, nid yw lleiafrif y disgyblion yn cyflawni hyd orau eu gallu ar draws y meysydd dysgu, yn enwedig yn eu medrau ysgrifennu a rhifedd.

Mae gan yr athrawon berthynas weithiol gadarnhaol â’r disgyblion ac maent yn eu harwain i ddysgu yn dda. Maent yn rhoi cefnogaeth gyson i ddisgyblion sy’n meithrin eu hagweddau at ddysgu yn briodol. At ei gilydd, nid yw disgwyliadau athrawon o’r hyn mae’r disgyblion yn gallu ei gyflawni yn ddigon uchel bob tro, ac nid ydynt yn eu herio i gyflawni gwaith sydd i’r safon sy’n ddisgwyliedig ohonynt. Mae athrawon yn dechrau darparu cwricwlwm sy’n datblygu medrau’r disgyblion yn adeiladol dros gyfnod, ond mae hyn yn ei ddyddiau cynnar.

Mae’r ysgol yn cydweithio’n dda â’r rheini ac aelodau’r gymuned ac mae’n rhan bwysig o’r ardal leol. Mae hyn yn cefnogi’r disgyblion i werthfawrogi’r Gymraeg, ynghyd â hanes a thraddodiadau lleol a chenedlaethol.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud pum argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Mynd i'r afael â'r mater diogelu a godwyd yn ystod yr arolygiad

A2 Sicrhau arweinyddiaeth gyson a chynaledig i'r ysgol

A3 Gwella gweithdrefnau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant er mwyn cryfhau'r ddarpariaeth a chodi safonau

A4 Cynllunio darpariaeth sy'n sicrhau'r ystod a'r ehangder ym mhob maes dysgu i gefnogi'r disgyblion i wneud cynnydd yn eu medrau

A5 Codi disgwyliadau athrawon i herio disgyblion i gyflawni hyd orau eu gallu

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEF o'r farn bod angen mesurau arbennig mewn perthynas â'r ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Dyma'r lefel ddwysaf o weithgarwch dilynol statudol. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol bob tymor ar ôl cyhoeddi'r adroddiad arolygu.

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 23/04/2025